**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**11 Mai 2015**

**CYFLAWNI Â LLAI – AD-DREFNU'R GWEITHLU**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Cyflwyno i'r Aelodau yr adroddiad 'Cyflawni â Llai – ad-drefnu'r gweithlu' a luniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Cefndir

2 Roedd Archwilydd Cyffredinol Cymru eisoes wedi sefydlu ei raglen o astudiaethau cenedlaethol Cymreig ar gyfer 2014-15. Roedd y rhaglen yn cynnwys astudiaeth ar "gyflawni â llai" er mwyn edrych sut roedd awdurdodau yn rheoli'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth yng nghyd-destun llai o adnoddau. Mae'r Archwilydd yn ymwybodol fod yr ATAau yng Nghymru wedi cydnabod yr heriau sy'n wynebu llywodraeth leol ac wedi bod yn ceisio sicrhau arbedion yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau statudol a disgwyliadau Llywodraeth Leol.

## Gwybodaeth

3 Ar ôl trafod ag uwch swyddogion penderfynwyd mai adolygiad yn canolbwyntio ar y maes gwariant mwyaf, sef costau gweithwyr, fyddai fwyaf buddiol. Yn ATAGC bu'r Archwilydd yn edrych ar y newidiadau y mae'r Awdurdod wedi eu gwneud drwy weithredu system griwio 'cylchrestru ar gyfer dyletswydd' yn ei orsafoedd llawn amser a'i orsafoedd criw dydd. Roedd yr Archwilydd yn ceisio atebion i'r cwestiwn: "A yw'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r newidiadau a wnaed i drefn y gweithlu wedi rheoli risgiau'n effeithiol ac wedi gwella'r ffordd y defnyddir adnoddau?"

4 Daeth yr astudiaeth i'r casgliad fod: arbedion effeithlonrwydd wedi cael eu sicrhau drwy ad-drefnu'r gweithlu, ac er bod arweiniad a chyfarwyddyd clir mae cyfyngiadau o ran y dogfennau sydd ar gael wedi gwanhau gallu'r Awdurdod i werthuso a defnyddio gwersi ar gyfer y dyfodol. Dyma'r rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn:

- mae'r Awdurdod wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd drwy newidiadau i'r gweithlu dros y tair blynedd ddiwethaf, ac roedd wedi canfod posibiliadau pellach ar gyfer sicrhau arbedion drwy ad-drefnu'r gweithlu
- ymchwiliwyd i'r opsiynau, a darparwyd arweiniad a chyfarwyddyd clir er mwyn gweithredu'r newid drwy negodi gyda chynrychiolwyr y gweithlu
- mae dogfennau clir yn ategu rhai agweddau ar y fenter, ond mae rhai eraill nad ydynt yn glir, ac mae hynny'n gwanhau'r trefniadau ffurfiol ar gyfer gwerthuso a chynllunio'r dyfodol.

5 Oherwydd ei bod yn gyfnod cyn etholiad, ni all y Swyddfa ryddhau'r adroddiad tan 8 Mai 2015, felly cyflwynir yr adroddiad gerbron cyfarfod y Panel Gweithredol a bydd aelod o staff y Swyddfa yn y cyfarfod i drafod yr adroddiad ymhellach.

6 Gofynnir i'r Aelodau nodi'r wybodaeth a ddarperir.